CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Tendr ar gyfer Stondin Genedlaethol i Gymru yn Ffair Lyfrau Ryngwladol Frankfurt

## Manylion

| | |
|---|---|
| **Cleient:** | Cyngor Llyfrau Cymru |
| **Teitl y gwaith:** | Cymru yn Ffair Lyfrau Frankfurt |
| **Math o waith:** | Dylunio ac adeiladu stondin arddangosfa fasnach |
| **Dyddiadau'r digwyddiad:** | 15–19 Hydref 2025 |
| **Gosod a thynnu i lawr** | I'w gadarnhau gan Ffair Lyfrau Frankfurt |

## Cefndir

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu presenoldeb i gyhoeddwyr o Gymru yn ffair lyfrau fwya'r byd. Hon fydd yr ail flwyddyn i'r Cyngor Llyfrau fod yn gyfrifol am ddarparu stondin fasnach ar gyfer y cyhoeddwyr Cymraeg a Saesneg o Gymru. Rydym yn chwilio am adeiladwr stondinau profiadol, yn ddelfrydol gyda phrofiad o ffeiriau llyfrau yn gyffredinol, a Frankfurt yn benodol.

## Y Gwaith

Mae'r Cyngor Llyfrau yn chwilio am dendrau cystadleuol o hyd at £50,000 i greu stondin fasnach sy'n ailadrodd yn fras y maint a'r cynllun gafwyd yn 2024 (gweler Atodiad A am y manylion). Nid oes gan y Cyngor Llyfrau reolwr prosiect penodedig, ond yn hytrach bydd yn cynnwys nifer bychan o staff perthnasol gan gynnwys y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, bydd un pwynt cyswllt penodol i sicrhau bod y cyfathrebu'n ddi-dor.

Bydd y cwmni llwyddiannus yn gyfrifol am bob agwedd ar y dyluniad, y cynllun ac am godi a thynnu'r stondin i lawr ac yn hollbwysig, yn cysylltu'n uniongyrchol â Ffair Lyfrau Frankfurt lle bo'r angen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau a'r amserlenni. Bydd y Cyngor Llyfrau yn fewnol yn gofalu am yr elfen dylunio graffeg a bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'r adrannau perthnasol.

## Cymhwysedd

Croesewir ceisiadau gan gwmnïau sydd â phrofiad o adeiladu stondinau o safon uchel mewn ffeiriau masnach. Mae croeso arbennig i ymgeiswyr sydd â'r gallu i gyfathrebu a rheoli prosiect drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Meini Prawf**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos:

- Profiad helaeth o ddylunio ac adeiladu stondinau mewn ffair fasnach (30%)
- Llwyddiant blaenorol o gyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb (20%)
- Gwerth am arian (20%)
- Y gallu i gydweithio'n rhagweithiol ac yn bragmatig gyda'r Cyngor Llyfrau (10%)
- Y profiad o weithio/gallu i weithio'n rhyngwladol, a chydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol (10%)
- Gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol (10%).

**Ceisiadau**

Rhaid i'r cais esbonio sut y byddech chi'n cyflawni'r cytundeb hwn, gan gynnwys:

- Dadansoddiad manwl o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y pris a gyflwynwyd ar gyfer y tendr a sut y byddai'n cynnig gwerth am arian i Gyngor Llyfrau Cymru
- unrhyw brofiad perthnasol yn adeiladu stondinau mewn ffeiriau llyfrau, ond yn enwedig yn Frankfurt
- amlinelliad o'ch dull o reoli'r prosiect dramor
- darparu enghreifftiau o ddyluniadau blaenorol, perthnasol
- enwi eich tîm ar gyfer y prosiect, gan gynnwys y rheolwr prosiect ar y safle.

**Amserlen**

Os byddwch yn llwyddiannus, fe'ch hysbysir o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau.

**Dyfarnu'r tendr**

Bydd y Cyngor Llyfrau yn dyfarnu'r cytundeb ar sail rhinweddau'r ceisiadau unigol ac anghenion y prosiect yn gyffredinol. Ceidw'r hawl i gefnogi unrhyw gais.

Dylid anfon copi electronig o'r cais ar ffurf ffeiliau Word ac Excel mewn e-bost at menai.williams@llyfrau.cymru o dan y pennawd **Tendr Ffair Lyfrau Frankfurt**. Rhaid i geisiadau gyrraedd **erbyn 12:00 (hanner dydd) ar ddydd Gwener 30 Mai 2025.** Disgwylir y bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau gweithio ar y prosiect cyn gynted ag y bo modd ar ôl y dyddiad hwn.


**Gofynnwn i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn bodloni'r gofynion, ynghyd â'ch ffioedd ar gyfer y gwaith hwn.**


Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â:


**Enw:** Menai Lloyd Williams
**Rhif ffôn:** 01970 629541
**E-bost:** menai.williams@llyfrau.cymru


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
An English-language version of this document is also available

ATODIAD A








1.50 m
3.00 m
7.50 m
7.00 m
4.00 m
9.0


Crown House Publishing
Dragon Press
Buzz Magazine
Firefly Press
Graffeg
Gwasg Carreg Gwalch
Parthian Books
and singers


Land of poets
and singers
Y Delyn Aur
The Melting Pot
Wales in
Frankfurt
Graffeg
Gwasg Carreg Gwalch
Parthian Books
Seren Books
Lucent Dreaming
Y Lolfa
Wales Literature Exchange
Folding Rock